cplll | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Cronfa Bensiynau CLWYD Pension Fund



# Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

# Trethiant Pensiynau: Lwfans Blynyddol

Mai 2025

# Tudalen Cynnwys


Cyflwyniad....3

Beth yw'r Lwfans Blynyddol?....3

A fydda i'n cael fy effeithio gan y lwfans blynyddol?....3

Adran 50:50 y CPLIL neu optio allan....4

Sut mae'r lwfans blynyddol yn cael ei gyfrifo?....4

Dwyn ymlaen....5

Y lwfans blynyddol gohiriedig i enillwyr uchel....5

Tabl 1: Terfynau lwfans blynyddol gohiriedig....6

Sut mae gohiriad yn gweithio?....6

Tabl 2: Y lwfans blynyddol gohiriedig o 2023/2024 ymlaen....7

Tabl 3: Y lwfans blynyddol gohiriedig o 2020/2021 i 2022/2023....7

Tabl 4: Y lwfans blynyddol gohiriedig o 2016/2017 i 2019/2020....7

Enghraifft 1: Cerys (tâl lwfans blynyddol yn 2022/2023)....8

Enghraifft 2: Huang (tâl lwfans blynyddol yn 2024/2025)....8

Mynediad 'Budd Hyblyg' i'r Lwfans Blynyddol....9

Tabl 5: Y Lwfans Blynyddol Pryniant Arian (MPAA)....9

Sut byddwn i'n talu treth lwfans blynyddol?....9

Ydi hyn yn effeithio arnaf i?....10

Cysylltu â Chronfa Bensiynau Clwyd....10

Ymwadiad....10




Cronfa Bensiynau CLWYD Pension Fund

# Cyflwyniad

Mae Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi yn cyfyngu ar faint o gynilion pensiwn y gallwch chi eu gwneud heb orfod talu treth ychwanegol. Mae'r terfyn hwn yn ychwanegol at unrhyw dreth incwm yr ydych chi'n ei dalu ar eich pensiwn pan fydd yn cael ei dalu i chi.

# Beth yw'r Lwfans Blynyddol?

Y lwfans blynyddol yw'r swm y gall eich buddion pensiwn gynyddu mewn blwyddyn heb i chi orfod talu treth.

Os yw gwerth eich cynilon pensiwn mewn blwyddyn (yn cynnwys cynilon pensiwn y tu allan i'r CPLlL) yn fwy na'r lwfans blynyddol, bydd y swm sy'n fwy na'r lwfans yn cael ei drethu fel incwm.

Mae'r lwfans blynyddol safonol wedi cynyddu i £60,000 o 6 Ebrill 2023. Yr oedd yn £40,000 ar gyfer blynyddoedd treth 2016/2017 i 2022/2023.

Bydd y lwfans blynyddol ar gyfer rhai aelodau yn is na'r lwfans blynyddol safonol. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch pryd y bydd lwfans blynyddol gwahanol yn berthnasol ar gael yn ddiweddarach yn y daflen ffeithiau hon.

# A fydda i'n cael fy effeithio gan y lwfans blynyddol?

Ni fydd y lwfans blynyddol yn effeithio ar y rhan fwyaf o bobl oherwydd ni fydd gwerth eu cynilion pensiwn yn cynyddu'n fwy na therfyn y lwfans blynyddol mewn blwyddyn. Pan fydd y cynnydd yn fwy na'r terfyn hwnnw, mae'n debygol y bydd gan bobl lwfans nad ydyn nhw wedi'i ddefnyddio o flynyddoedd blaenorol y gellir ei gario drosodd.

Rydych yn fwyaf tebygol o gael eich effeithio os yw un o'r datganiadau isod yn berthnasol i chi:

- Mae gennych chi aelodaeth CPLIL a adeiladwyd yn y rhan cyflog terfynol ac rydych yn cael codiad cyflog sylweddol. Mae aelodaeth cyflog terfynol yn aelodaeth a gasglwyd cyn 1 Ebrill 2014
- Rydych chi'n cyfuno budd pensiwn CPLIL blaenorol a adeiladwyd yn rhan cyflog terfynol yr CPLIL â'ch cyfrif pensiwn cyfredol ac mae'ch cyflog (cyfateb i amser llawn) wedi codi'n sylweddol ers i chi adael y Cynllun
- Rydych chi'n trosglwyddo pensiynau i mewn i'r CPLIL o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus blaenorol dan y rheolau trosglwyddo Clwb ffafriol ac mae'ch cyflog (cyfateb i amser llawn) ar ymuno â'r CPLIL yn uwch na'r cyflog yr oeddech yn ei ennill pan adawoch chi'r cynllun blaenorol. Cynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru yw cynlluniau ar gyfer gweision sifil, unrhyw gynllun yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban sy'n ymdrin â gweithwyr llywodraeth leol, athrawon, gweithwyr gwasanaeth iechyd, gweithwyr tân ac achub neu aelodau o'r heddlu, neu gynllun pensiwn corff cyhoeddus newydd
- Yn y gorffennol rydych wedi trosglwyddo aelodaeth i mewn o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus arall sydd â chysylltiad cyflog terfynol ac rydych yn cael codiad cyflog sylweddol

- Rydych chi' talu lefel uchel o gyfraniadau ychwanegol
- Rydych chi'n ennill cyflog uchel
- Rydych chi wedi cyrchu buddiannau hyblyg ar neu ar ôl 6 Ebrill 2015

Os oedd eich cynilion pensiwn CPLIL yn uwch na'r lwfans blynyddol safonol mewn unrhyw flwyddyn yn dod i ben ar 5 Ebrill, bydd Cronfa Bensiynau Clwyd yn cysylltu â chi erbyn 6 Hydref i roi gwybod i chi.

## Adran 50:50 y CPLIL neu optio allan

Os ydych yn dymuno arafu crynhoad eich pensiwn er mwyn osgoi neu leihau treth lwfans blynyddol, gallech ystyried ymuno â'r adran 50:50. Yn adran 50:50 y CPLIL rydych yn talu hanner eich cyfraniadau arferol ac yn adeiladau hanner eich pensiwn arferol, ond rydych yn cadw yswiriant bywyd ac yswiriant afiechyd. Mae rhagor o wybodaeth am **dalu llai – yr adran 50:50** ar wefan aelodau CPLIL. (Mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

Fel arall, os ydych yn penderfynu optio allan o dalu'r cyfraniadau CPLIL, bydd gennych fuddion gohiriedig yn y cynllun. Ni fyddwch yn gallu crynhoi eich buddiannau pe baech yn ail-ddechrau talu cyfraniadau CPLIL yn y dyfodol.

Cyn cymryd unrhyw gamau i leihau'ch ymrwymiadau treth dylech bob amser ofyn am gyngor ariannol annibynnol gan ymgynghorydd sydd wedi cofrestru â'r FCA. I gael cymorth i ddewis ymgynghorydd ariannol annibynnol, ewch i'r wefan **HelpwrArian.**

**Chi fydd yn gyfrifol am unrhyw gostau a wynebwch wrth geisio cyngor ariannol annibynnol.**

## Sut mae'r lwfans blynyddol yn cael ei gyfrifo?

Caiff y cynnydd yng ngwerth eich cynilion pensiwn yn y CPLIL bob blwyddyn ei gyfrifo drwy:

- gyfrifo gwerth eich buddion yn syth cyn dechrau'r 'cyfnod mewnbwn pensiwn'
- cynyddu'r gwerth hwnnw yn ôl chwyddiant, ac
- ei gymharu â gwerth eich buddion ar ddiwedd y 'cyfnod mewnbwn pensiwn'

Y 'cyfnod mewnbwn pensiwn' yw'r cyfnod y caiff y cynnydd yn eich pensiwn ei fesur. Mae cyfnodau mewnbwn pensiwn yn cyd-fynd â blwyddyn dreth 6 Ebrill i 5 Ebrill.

Yn y CPLIL, caiff gwerth eich buddiannau pensiwn ei gyfrifo drwy:

- luosi swm eich pensiwn blynyddol ag 16
- ychwanegu unrhyw gyfandaliad y mae gennych hawl iddo yn awtomatig o'r cynllun pensiwn, ac
- ychwanegu unrhyw gyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (CGY) yr ydych chi neu'ch cyflogwr wedi'u talu yn ystod y flwyddyn

Os yw gwerth eich buddiannau pensiwn ar ddiwedd y PIP ar ôl tynnu gwerth eich buddiannau pensiwn yn syth cyn dechrau'r PIP (wedi'i addasu o ran chwyddiant), yn fwy na'r lwfans blynyddol, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i chi dalu treth.

Mae’r asesiad lwfans blynyddol yn ymdrin ag unrhyw fuddiannau pensiwn sydd gennych chi lle buoch yn talu cyfraniadau pensiwn yn ystod y flwyddyn, nid yn unig buddion yn y CPLIL. Er enghraifft, os oedd y cynnydd yng ngwerth eich buddiannau CPLIL yn £50,000 yn 2024/2025 pan yr oedd y lwfans blynyddol yn £60,000 ond yr oedd gennych chi hefyd gynnydd yng ngwerth buddiannau pensiwn eraill o £15,000 yn yr un flwyddyn, byddai hynny’n golygu i chi gael cyfanswm cynnydd mewn buddiannau pensiwn o £65,000. Os nad oedd gennych chi ddim arian i’w ddwyn ymlaen, byddech chi’n atebol am dreth ar y swm a oedd yn fwy na’r lwfans blynyddol, er nad oeddech chi’n mynd dros y lwfans blynyddol yn y naill gynllun na’r llall. Mae rhagor o wybodaeth am ddwyn ymlaen yn yr adran nesaf.

## Dwyn ymlaen

Gallech chi fod yn wynebu treth lwfans blynyddol os yw gwerth eich cynilion pensiwn am flwyddyn yn cynyddu mwy na’r lwfans blynyddol i’r flwyddyn honno. Fodd bynnag, mae rheol dwyn ymlaen o dair blynedd yn caniatáu i chi ddwyn ymlaen lwfans blynyddol sydd heb ei ddefnyddio o’r tair blynedd ddiwethaf. Golyga hyn, hyd yn oed os yw gwerth eich cynilion pensiwn chi’n cynyddu mwy na’r lwfans blynyddol mewn blwyddyn, mae’n bosibl na fydd yn rhaid i chi dalu’r dreth lwfans blynyddol.

Er enghraifft, cynyddodd gwerth eich cynilion pensiwn o £70,000 yn 2024/2025 (h.y. o £10,000 yn fwy na’r lwfans blynyddol) ond yn y tair blynedd gynt wedi codi o £35,000, £28,000 a £30,000. Byddai unrhyw gynnydd mewn cynilion pensiwn dan y lwfans blynyddol dros y tair blynedd hynny yn gwneud mwy na chydbwyso’r £10,000 o gynilion pensiwn dros ben yn 2024/2025. Ni fyddai'n rhaid i chi dalu treth lwfans blynyddol.

I ddwyn lwfans blynyddol nas defnyddiwyd ymlaen o flwyddyn gynharach, mae’n rhaid i chi fod wedi bod yn aelod o gynllun pensiwn a gofrestrwyd ar gyfer treth yn y flwyddyn honno.

## Y lwfans blynyddol gohiriedig i enillwyr uchel

Mae’r lwfans blynyddol wedi’i ohirio i’r rhai sy’n ennill yn uchel. Bydd y lwfans blynyddol yn cael ei ostwng os yw’ch ‘incwm trothwy’ a’r ‘incwm a addaswyd’ yn mynd dros y terfynau mewn blwyddyn. Am bob £2 y mae’ch incwm a addaswyd yn mynd dros y terfyn, caiff eich lwfans blynyddol ei ohirio o £1. Ni all eich lwfans blynyddol gael ei ohirio islaw’r isafswm sy’n weithredol. Mae’r Llywodraeth wedi newid y terfynau hyn ers iddyn nhw gael eu cyflwyno am y tro cyntaf. Mae Tabl 1 yn dangos y terfynau sy’n berthnasol.

## Tabl 1: Terfynau lwfans blynyddol gohiriedig

| | Diffiniad | Terfyn 2016/2017 i 2019/2020 | Terfyn 2020/2021 i 2022/2023 | Terfyn 2023/2024 ymlaen |
|---|---|---|---|---|
| **Incwm trothwy** | Yn fras eich incwm trethadwy ar ôl didynnu'ch cyfraniadau pensiwn (yn cynnwys CGY) | £110,000 | £200,000 | £200,000 |
| **Incwm wedi'i addasu** | Yn fras eich incwm trothwy + cynilion pensiwn a adeiladwyd dros y flwyddyn dreth | £150,000 | £240,000 | £260,000 |
| **Isafswm Lwfans Blynyddol** | Os yw'ch lwfans blynyddol yn ohiriedig, isafswm y lwfans blynyddol all fod yn weithredol | £10,000 | £4,000 | £10,000 |

Mae incwm trothwy yn cynnwys incwm o bob ffynhonnell sy'n drethadwy.  Er enghraifft, incwm eiddo, incwm cynilion, incwm difidend, incwm pensiwn, incwm nawdd cymdeithasol (os yw'n drethadwy), incwm pensiwn y wladwriaeth ac ati.

Nid oes hawl gennych chi ddidynnu o incwm trethadwy unrhyw swm o incwm cyflogaeth a ildiwyd at ddarpariaeth pensiwn o ganlyniad i unrhyw aberth cyflog a wnaed ar neu ar ôl 9 Gorffennaf 2015.

# Sut mae gohiriad yn gweithio?

O'r flwyddyn 2023/2024, mae'r gohiriad yn gostwng y lwfans blynyddol o £1 am bob £2 o incwm wedi'i addasu a gafwyd dros £260,000, nes cyrraedd isafswm lwfans blynyddol o £10,000. Gweler y lwfans blynyddol sy'n berthnasol i unigolion sy'n ennill cyflog uchel o 6 Ebrill 2023 yn nhabl 2.

## Tabl 2: Y lwfans blynyddol gohiriedig o 2023/2024 ymlaen

| Incwm wedi'i addasu | Lwfans Blynyddol |
|---|---|
| £260,000 neu is | £60,000 |
| £280,000 | £50,000 |
| £300,000 | £40,000 |
| £320,000 | £30,000 |
| £340,000 | £20,000 |
| £360,000 neu uwch | £10,000 |

Mae Tabl 3 a 4 yn dangos effaith y lwfans blynyddol gohiriedig yn y blynyddoedd hyd at 2022/2023.

## Tabl 3: Y lwfans blynyddol gohiriedig o 2020/2021 i 2022/2023

| Incwm wedi'i addasu | Lwfans Blynyddol |
|---|---|
| £240,000 neu is | £40,000 |
| £250,000 | £35,000 |
| £260,000 | £30,000 |
| £270,000 | £25,000 |
| £280,000 | £20,000 |
| £290,000 | £15,000 |
| £300,000 | £10,000 |
| £312,000 neu uwch | £4,000 |

## Tabl 4: Y lwfans blynyddol gohiriedig o 2016/2017 i 2019/2020

| Incwm wedi'i addasu | Lwfans Blynyddol |
|---|---|
| £150,000 neu is | £40,000 |
| £160,000 | £35,000 |
| £170,000 | £30,000 |
| £180,000 | £25,000 |
| £190,000 | £20,000 |
| £200,000 | £15,000 |
| £210,000 neu uwch | £10,000 |

## Enghraifft 1: Cerys (tâl lwfans blynyddol yn 2022/2023)

| | |
|---|---|
| Cyflog gros **2022/2023** | £220,000 |
| Llai o gyfraniadau pensiwn gweithwyr (12.5%) | £27,500 |
| Incwm trothwy **2022/2023** | £192,500 |
| Cynilion pensiwn yn y flwyddyn | £71,837 |

Mae incwm trothwy Cerys yn llai na £200,000. Ni fydd ei lwfans blynyddol yn cael ei ohirio yn 2022/2023. Cafodd cynilion pensiwn Cerys eu mesur yn erbyn y lwfans blynyddol safonol o £40,000.

| | |
|---|---|
| Lwfans blynyddol safonol | £40,000 |
| Cynilion pensiwn yn fwy na'r lwfans blynyddol | £31,837 |
| **Treth lwfans blynyddol** ar y gyfradd ymylol | £14,327 (rhagdybir cyfradd ymylol o 45%) |

## Enghraifft 2: Huang (tâl lwfans blynyddol yn 2024/2025)

| | |
|---|---|
| Cyflog gros **2024/2025** | £230,000 |
| Llai o gyfraniadau pensiwn gweithwyr (12.5%) | £28,750 |
| + incwm trethadwy o eiddo | £38,000 |
| **Incwm trothwy 2024/2025** | £239,250 |
| + arbediad pensiwn yn y flwyddyn | £75,102 |
| **Incwm a addaswyd 2024/2025** | £314,352 |

Mae incwm trothwy Huang yn fwy na £200,000 ac mae ei hincwm a addaswyd yn fwy na £260,000. Cafodd ei lwfans blynyddol ei ohirio am y flwyddyn 2024/2025.

| | |
|---|---|
| Lwfans blynyddol gohiriedig | £32,824* |
| Yn fwy na'r lwfans blynyddol | £42,278 |
| **Treth lwfans blynyddol** ar y gyfradd ymylol | £19,025 (rhagdybir cyfradd ymylol o 45%) |

*Gohiriad = £314,352 - £260,000 = £54,352 ÷ 2 = £27,176 (wedi'i dalgrynnu i lawr)

Lwfans Blynyddol Safonol £60,000 -£27,176 = £32,824

Nid ydym wedi caniatáu ar gyfer unrhyw ddwyn ymlaen yn yr enghreifftiau uchod. Wrth gyfrifo'r cynilion pensiwn yn y flwyddyn yr ydym ni wedi rhagdybio:

- addasiad chwyddiant o sero
- nid oes gan yr aelodau fuddion cyflog terfynol yn y CPLIL, ac
- nid yw'r aelodau'n talu unrhyw gyfraniadau ychwanegol

## Mynediad 'Budd Hyblyg' i'r Lwfans Blynyddol

Os oes gennych chi fuddiannau mewn trefniant pensiwn pryniant arian (cyfraniad diffiniedig) yr ydych chi wedi'u cyrchu'n hyblyg ar neu ar ôl 6 Ebrill 2015, yna gall y rheolau lwfans blynyddol pryniant arian (MPAA) fod yn berthnasol. Dim ond os yw cyfanswm eich cyfraniadau chi i drefniant prynu arian mewn PIP yn fwy na'r MPAA y bydd yr MPAA yn berthnasol.

Yn gyffredinol, os ydych chi wedi cyrchu unrhyw fuddiannau mewn trefniant prynu arian yn hyblyg ar neu ar ôl 6 Ebrill 2015, bydd unrhyw gyfraniadau ychwanegol a wnewch chi i gynllun pryniant arian mewn blynyddoedd treth yn y dyfodol yn cael eu profi yn erbyn yr MPAA. Os yw'ch cyfraniadau chi'n mynd y tu hwnt i'r MPAA, bydd eich cynilion pensiwn (CPLIL) budd a ddiffiniwyd yn cael eu profi yn erbyn y lwfans blynyddol arall a byddwch chi'n talu treth ar eich pryniant arian sy'n fwy na'r MPAA.

### Tabl 5: Y Lwfans Blynyddol Pryniant Arian (MPAA)

| Blwyddyn Dreth | MPAA | Lwfans blynyddol amgen os eir tros yr MPAA |
|---|---|---|
| 2016/2017 | £10,000 | £30,000 |
| 2017/2018 i 2022/2023 | £4,000 | £36,000 |
| 2023/2024 ymlaen | £10,000 | £50,000 |

Os ydych chi'n cyrchu buddiannau hyblyg, byddwch chi'n cael datganiad cyrchu hyblyg; **dylech roi copi o'r datganiad hwn i Gronfa Bensiynau Clwyd.**

Mae cyrchu hyblyg yn golygu:

- cymryd swm o arian dros y cyfandaliad di-dreth o gyfrif tynnu i lawr mynediad hyblyg
- cymryd cyfandaliad cronfa bensiwn heb ei chrisialu
- prynu blwydd-dal hyblyg
- cymryd pensiwn cynllun o gynllun cyfraniad diffiniedig gyda llai na 12 o aelodau-pensiynwyr, neu
- gymryd cyfandaliad annibynnol os oes gennych chi warchodaeth sylfaenol ond heb warchodaeth uwch. Mae cyfandaliad annibynnol yn gyfandaliad cyn 6 Ebrill 2006 pryd gellir cymryd y swm cyfan yn gyfandaliad heb bensiwn cysylltiedig

## Sut byddwn i'n talu treth lwfans blynyddol?

Os ydych chi'n mynd yn uwch na'r lwfans blynyddol mewn unrhyw flwyddyn, chi sy'n gyfrifol am adrodd am hyn i Gyllid a Thollau EF ar eich ffurflen dreth hunanasesu.

Mae'n rhaid i Gronfa Bensiynau Clwyd eich hysbysu chi os yw'ch cynilion pensiwn yn y CPLIL (hefyd swm unrhyw CGY a daloch) yn fwy na'r lwfans safonol mewn blwyddyn, neu os ydyn nhw'n credu i chi fynd yn uwch na'r MPAA mewn blwyddyn. Mae'n rhaid iddyn nhw eich hysbysu chi yn ddim hwyrach na 6 Hydref sy'n dilyn diwedd y PIP. Nid oes raid i Gronfa Bensiynau Clwyd eich hysbysu chi os ydych yn mynd y tu hwnt i'ch lwfans blynyddol gohiriedig.

Os oes gennych chi dreth lwfans blynyddol sy'n uwch na £2,000 ac mae'ch cynilion pensiwn yn y CPLIL yn unig wedi cynyddu mwy na'r lwfans blynyddol safonol mewn blwyddyn, efallai y byddwch chi'n gallu dewis i'r CPLIL dalu rhywfaint neu'r cyfan o'r dreth ar eich rhan. Byddai'r dreth yn cael ei hadfer o'ch pensiwn wedyn. Gweler y daflen ffeithiau 'cynllun yn talu' ynghlwm i gael rhagor o wybodaeth.

Os ydych eisiau i'r CPLIL dalu rhywfaint neu'r cyfan o dreth lwfans blynyddol ar eich rhan, mae'n rhaid i chi hysbysu Cronfa Bensiynau Clwyd yn ddim hwyrach na 31 Gorffennaf yn y flwyddyn sy'n dilyn diwedd y flwyddyn y mae'r tâl lwfans blynyddol yn ymwneud â hi. Fodd bynnag, os ydych chi'n ymddeol (ac yn cymryd eich holl fuddiannau o'r CPLIL) ac eisiau i'r CPLIL dalu rhywfaint neu'r cyfan o'r dreth ar eich rhan o'ch buddiannau, mae'n rhaid i chi ddweud wrth eich cronfa bensiwn cyn y caiff y buddiannau hynny eu talu i chi.

## Ydi hyn yn effeithio arnaf i?

(Mae'r dolenni isod yn mynd i wefannau allanol. Mae'n bosibl y bydd rhai o'r gwefannau yn uniaith Saesneg).

Os ydych chi'n credu bod y lwfans blynyddol yn effeithio arnoch chi, mae rhagor o wybodaeth yn yr adran **pension tax and the annual allowance** ar wefan y Llywodraeth. (Mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg). Os nad ydych chi'n siŵr a fydd eich lwfans blynyddol yn cael ei effeithio, defnyddiwch y **quick check tool** ar wefan aelodau'r CPLIL. (Mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

## Cysylltu â Chronfa Bensiynau Clwyd

Canllaw cyffredinol yn unig yw'r daflen ffeithiau hon. Os hoffech ragor o wybodaeth neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich buddion neu aelodaeth CPLlL, cysylltwch â Chronfa Bensiynau Clwyd:

**Ffôn:** 01352 702875

**E-bost:** **pensiynau@siryfflint.gov.uk**

**Cyfeiriad:** Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF

**Gwefan:** **https://cronfabensiynauclwyd.org.uk**

## Ymwadiad

Mae'r daflen ffeithiau hon yn rhoi trosolwg o reolau'r lwfans blynyddol ym mis Mai 2025. Ni ddylid ei drin fel datganiad cyflawn ac awdurdodol o'r gyfraith. Gall y rheolau sy'n pennu lwfans blynyddol fod yn gymhleth a gallant newid. Os nad ydych chi'n siŵr beth i'w wneud fe'ch cynghorir i gael cyngor ariannol annibynnol. I gael cymorth i ddewis ymgynghorydd ariannol annibynnol, ewch i'r wefan **HelpwrArian.**

cronfabensiynauclwyd.org.uk

**Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF**

Cyngor Sir y Fflint yw awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd ac rydym ni'n defnyddio eich data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data i ddarparu gwasanaeth gweinyddu pensiynau i chi. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio eich data, gyda phwy rydym yn ei rannu, a'r hawliau sydd gennych mewn perthynas â'ch data, darllenwch yr Hysbysiad Preifatrwydd ar ein gwefan